Mumbles Community Council

# Minutes of Meeting of the Community & Social Development Committee held on 17 September 2025 at The Ostreme Centre 6.30pm and via TEAMS

**Councillors Present:** Cllrs Ian Scott (Chair), Francesca O'Brien, Phil Keeton, Trevor Carr, Laura Gilbert and William Thomas.

**Officers Present:** Kerry Grabham – CO and Ian Hughes - CSO

**CSD2509-01** **Apologies:**
Cllrs Pam Erasmus and Sara Keeton

**CSD2509-02** **Declarations of Interest**
None

**CSD2509-03** **To approve the minutes of the previous meeting as a true record.**
To approve the minutes of the meeting held on 30th July 2025 as a true record.

No meeting took place in July

**RESOLVED** To defer approval of the minutes for June's meeting to October's Committee Meeting.

**CSD2509-04** **Outstanding Actions from Previous Meetings**

The CSO outlined outstanding actions.

**RESOLVED** 'Outstanding action' report to be updated by CSO.

**CSD2509-05** **Budget Monitoring Reports to 31/07/2025**
Reports attached.

Financial reports prepared by RFO, Paul Beynon who had previously circulated the documents to councillors.

No queries were raised with either the RFO or CSO prior to the meeting in relation to the reports.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 31st July 2025.

## CSD2509-06 Budget 2026/27

The Chair, Cllr Scott emphasised the need for budget proposal forms for future projects to be submitted in a timely manner before 31st October 2025.

Potential projects were discussed including further development to Mumbles Bowls Pavillion and improving disabled access to Oystermouth Cemetery via Slade Road.

**RESOLVED** to submit budget proposal forms before 31.10.2025

Cllr Phil Keeton joined the meeting at 6.40pm

## CSD2509-07 Community Bus

Cllr O'Brien outlined how she had liaised further with Cllr James of Pennard Community Council and other community councillors together with representatives from SCC. As previously outlined to the committee there are complex issues connected with further developing a community bus service including financial support

**RESOLVED:** Cllr O'Brien to continue to make enquiries and liaise with SCC and other councillors in relation to developing the community bus service and update the committee at October's meeting.

## CSD2509-08 Bereavement Support Group

Whilst the Chair, Cllr Scott has not received any update in relation to the original aspirations of the initiative, the CO volunteered to contact MIND with a view to their participation at MCC sponsored events such as Coffee with Friends. Whilst these would not be held on a weekly basis it would provide an opportunity for local residents to be provided with relevant bereavement information perhaps on a monthly basis.

**Action:** The CO to email MIND with a view to their participation at MCC events.

Mumbles Community Council

**CSD2509-09** **Vandalism (graffiti) at Mumbles Skate Park and criminal damage to parked cars within the vicinity of Waverley Drive (paintwork being 'keyed' and tyres being 'slashed')**

The Chair, Cllr Scott set out that the level of graffiti at Mumbles Skate Park had increased and that it had been Full Council's decision not to tolerate graffiti. Cllr Scott had liaised with the local PCSO, Patrick, but unfortunately was not in attendance.

The CO explained that the cleaning of graffiti from the skating surfaces required a specialist treatment in order not to damage the surface. The CO had only been able to receive one quote of £2,200 from a local company to carry out the removal of the graffiti. The CO, despite contacting Mumbles Skateboarding Association (MSA) was unable to identify no alternative cleaning company to carry out this work. MSA did state that they had between £300 and £400 left in their reserves and would be prepared to contribute this to the cleaning process. The CO stated that in the event of Full agreeing to MCC contribute to the graffiti removal the normal financial regulations would need to be suspended due to only one suitable company being identified.

A discussion took place on alternatives to using a cleaning company, but these were considered unsuitable at present.

**RECOMMENDATION** That Full Council suspend their normal financial regulations when deciding upon the following recommendation due to only suitable company being identified.

**RECOMMENDATION** MCC provide up to £1,900 to pay for the removal of graffiti from the Mumbles Skatepark.

**CSD2509-10** **Langland Tennis Courts - Replacement of netting around Basketball Court (Court No. 3)**

Cllr Thomas informed the committee that the same company that was responsible for resurfacing the basketball court is in the process of providing a quote for replacing the surrounding fence.

**RESOLVED** Cllr Thomas to provide a further update at October's Meeting

CSD2509-11 **CCTV at Mumbles Skate Park.**

The CO stated that whilst installing CCTV may be impractical and prohibitively expensive, she had liaised with SCC who had provided her with detailed information on the use of deployable cameras. The CO offered to assess this information and provide feedback at October's Meeting.

Other contributions to the discussion included Cllr O'Briens experience of deploying remote cameras and the use of hydrogen powered cameras. Cllr Thomas believed that a spare pole is located at Underhill Park which would be suitable for accommodating a remote camera.

**RESOLVED** The use of CCTV/deployable cameras to be addressed at October's Meeting when the CO would have assessed information on their use.

**ACTION** Cllr O'Brien to circulate information on remote cameras to other committee members.

**ACTION** Cllr Thomas to obtain quote/information on the cost of relocating a camera pole from Underhill Park to Mumbles Skatepark. In addition, costings in relation to the camera itself and its maintenance.

CSD2509-12 **Mumbles Skatepark Annual Inspection**

The Annual Safety Inspection of Mumbles Skatepark had been circulated to committee members prior to the meeting.

The Chair, Cllr Scott outlined key aspects of the report with only one area needing to be addressed, namely the need for grassed areas to be repaired/maintained.

**RESOLVED** To accept the Annual Safety Inspection of Mumbles Skatepark Report.

**ACTION** Ashley Haynes to repair/maintain areas of worn-out grassed areas as detailed in the above report.

CSD2509-13 **Invitation to Mumbles Skatepark on 27.09.25 (10am to noon) – Paul Evans SCC community safety co-ordinator**

The Chair, Cllr Scott detailed an open invitation to a safety event in 27th September 2025. The CO further outlined how the event would be held in conjunction with SCC and South Wales Police.

CSD2509-14 **Mumbles Skatepark – Roller-Skating Proposal**

The Chair, Cllr Scott detailed a request from a local resident requesting that an area for roller skating be created at Mumbles Skatepark.

A discussion took place between councillors on options to add to the existing facilities whilst being mindful of areas being prone to flooding. Ideas included a raised BMX facility and basketball hoop. It was also noted that any future development would need to be mindful of the wishes of local residents.

**ACTION** CO to write back to the proposer seeking additional information on the proposal.

Meeting finished 7.26pm

Next Meeting 15th October 2025

Mumbles Community Council

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol a gynhaliwyd ar 17 Medi 2025 yng Nghanolfan Ostreme am 6.30pm a thrwy gyfrwng TEAMS

**Cynghorwyr yn bresennol:** Y Cynghorwyr Ian Scott (Cadeirydd), Francesca O'Brien, Phil Keeton,
Trevor Carr, Laura Gilbert a William Thomas.

**Swyddogion yn bresennol:** Kerry Grabham – Prif Swyddog ac Ian Hughes - Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**CSD2509-01** **Ymddiheuriadau:**
Y Cynghorwyr Pam Erasmus a Sara Keeton

**CSD2509-02** **Datganiadau o fuddiant**
Dim

**CSD2509-03** **Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol fel rhai cywir.**
Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2025 fel cofnod cywir.

Ni chynhaliwyd cyfarfod ym mis Gorffennaf

**PENDERFYNWYD** Gohirio cymeradwyo cofnodion cyfarfod mis Mehefin tan gyfarfod y pwyllgor ym mis Hydref.

**CSD2509-04** **Camau gweithredu heb eu cwblhau o gyfarfodydd blaenorol**

Amlinellodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau y camau gweithredu a oedd heb eu cwblhau.

**PENDERFYNWYD** bod y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn diweddaru adroddiad 'camau gweithredu heb eu cwblhau'.

Mumbles Community Council

CSD2509-05 **Adroddiadau monitro'r gyllideb hyd at 31 Gorffennaf 2025**
Adroddiadau wedi'u hatodi.

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, wedi'u darparu i'r cynghorwyr yn flaenorol.
Ni chodwyd unrhyw gwestiynau gyda'r Swyddog Ariannol Cyfrifol na'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau cyn y cyfarfod mewn perthynas â'r adroddiadau.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Gorffennaf 2025.

CSD2509-06 **Cyllideb 2026-2027**

Pwysleisiodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Scott, yr angen i gyflwyno ffurflenni cynnig cyllideb ar gyfer prosiectau yn y dyfodol yn brydlon cyn 31 Hydref 2025.

Trafodwyd prosiectau posibl gan gynnwys datblygiad pellach i Bafiliwn Bowlio'r Mwmbwls a gwella mynediad i bobl anabl i Fynwent Ystumllwynarth trwy Heol Slade.

**PENDERFYNWYD** cyflwyno ffurflenni cynnig cyllideb ar gyfer prosiectau i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol cyn 31 Hydref 2025.

Ymunodd y Cynghorydd Phil Keeton â'r cyfarfod am 6.40pm

CSD2509-07 **Bws cymunedol**

Amlinellodd y Cynghorydd O'Brien sut yr oedd hi wedi cysylltu ymhellach â'r Cynghorydd James o Gyngor Cymuned Pennard a chynghorwyr cymuned eraill ynghyd â chynrychiolwyr o Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol i'r pwyllgor, mae materion cymhleth yn gysylltiedig â datblygu gwasanaeth bysiau cymunedol ymhellach, gan gynnwys cymorth ariannol.

**PENDERFYNWYD:** Bod y Cynghorydd O'Brien i barhau i wneud ymholiadau a chysylltu â Chyngor Dinas a Sir Abertawe a chynghorwyr eraill mewn perthynas â datblygu'r gwasanaeth bysiau cymunedol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor yng nghyfarfod mis Hydref.

CSD2509-08 **Grŵp cymorth mewn profedigaeth**

Er nad yw'r Cadeirydd, y Cynghorydd Scott, wedi derbyn unrhyw ddiweddariad mewn perthynas â dyheadau gwreiddiol y fenter, gwirfoddolodd y Prif Swyddog i gysylltu â MIND gyda'r bwriad o'u gwahodd i gymryd rhan mewn digwyddiadau a noddir gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls fel Coffi gyda Chyfeillion. Er na fyddai'r rhain yn cael eu cynnal yn wythnosol, byddai'n rhoi cyfle i drigolion lleol gael gwybodaeth berthnasol am brofedigaeth, efallai'n fisol.

CSD2509-09 **CAM GWEITHREDU:** Y Prif Swyddog i anfon e-bost at MIND gyda'r bwriad o'u gwahodd i gymryd rhan yn nigwyddiadau Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

**Fandaliaeth (graffiti) ym Mharc Sglefrio'r Mwmbwls a difrod troseddol i geir wedi'u parcio yng nghyffiniau Waverley Drive (rhywun yn crafu paent ag allwedd ac yn torri teiars â chyllell)**

Nododd y Cadeirydd, y Cynghorydd Scott, fod lefel y graffiti ym Mharc Sglefrio'r Mwmbwls wedi cynyddu a bod y Cyngor Llawn wedi penderfynu peidio â goddef graffiti.
Roedd y Cynghorydd Scott wedi cysylltu â Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu lleol, Patrick, ond yn anffodus nid oedd yn bresennol.

Esboniodd y Prif Swyddog fod glanhau graffiti o'r arwynebau sglefrio yn gofyn am driniaeth arbenigol er mwyn peidio â difrodi'r wyneb. Dim ond un dyfynbris o £2,200 yr oedd y Prif Swyddog wedi gallu ei gael gan gwmni lleol i gael gwared ar y graffiti. Er gwaethaf cysylltu â Chymdeithas Sglefrfyrddio'r Mwmbwls, ni allai'r Prif Swyddog ddod o hyd i gwmni glanhau arall i wneud y gwaith hwn. Dywedodd Cymdeithas Parc Sglefrio'r Mwmbwls fod ganddyn nhw rhwng £300 a £400 ar ôl yn eu cronfeydd wrth gefn a bydden nhw'n barod i gyfrannu hyn at y broses lanhau.
Dywedodd y Prif Swyddog, pe bai'r Cyngor Llawn yn cytuno i Gyngor Cymuned y Mwmbwls gyfrannu at gael gwared ar graffiti, y byddai angen atal y rheoliadau ariannol arferol oherwydd mai dim ond un cwmni addas a nodwyd.

Cynhaliwyd trafodaeth ar ddewisiadau eraill yn lle defnyddio cwmni glanhau, ond ystyriwyd bod y rhain yn anaddas ar hyn o bryd.

**ARGYMHELLIAD** Bod y Cyngor Llawn yn atal eu rheoliadau ariannol arferol wrth benderfynu ar yr argymhelliad canlynol oherwydd mai dim ond un cwmni addas sydd wedi cael ei nodi.

**ARGYMHELLIAD** Bod Cyngor Sir y Mwmbwls yn darparu hyd at £1,900 i dalu am gael gwared â graffiti o Barc Sglefrio'r Mwmbwls.

CSD2509-10 **Cwrt tennis Langland – amnewid rhwydi o amgylch y cwrt pêl-fasged (cwrt rhif 3)**

Hysbysodd y Cynghorydd Thomas y pwyllgor fod yr un cwmni a oedd yn gyfrifol am osod wyneb newydd ar y cwrt pêl-fasged yn y broses o ddarparu dyfynbris ar gyfer gosod ffens newydd o'i gwmpas.

**PENDERFYNWYD** y dylai'r Cynghorydd Thomas roi diweddariad pellach yng nghyfarfod mis Hydref

CSD2509-11 **Teledu cylch cyfyng (CCTV) ym Mharc Sglefrio'r Mwmbwls.**

Dywedodd y Prif Swyddog, er y gallai gosod system deledu cylch cyfyng fod yn anymarferol ac yn rhy ddrud, ei bod wedi cysylltu â Chyngor Dinas a Sir Abertawe a oedd wedi rhoi gwybodaeth fanwl iddi am ddefnyddio camerâu symudol. Cynigiodd y Prif Swyddog asesu'r wybodaeth hon a rhoi adborth yng nghyfarfod mis Hydref.

Ymhlith y cyfraniadau eraill i'r drafodaeth roedd profiad y Cynghorydd O'Briens o ddefnyddio camerâu o bell a defnyddio camerâu sy'n cael eu pweru gan hydrogen. Credai'r Cynghorydd Thomas fod polyn sbâr wedi'i leoli ym Mharc Underhill a fyddai'n addas ar gyfer gosod camera o bell.

**PENDERFYNWYD** Y dylid trafod defnyddio camerâu cylch cyfyng/camerâu y gellir eu defnyddio yng nghyfarfod mis Hydref pan fyddai'r Prif Swyddog wedi asesu gwybodaeth am eu defnydd.

**CAMAU** I'r Cynghorydd O'Brien ddosbarthu gwybodaeth am gamerâu o bell i aelodau eraill y pwyllgor.

**CAM GWEITHREDU** Y Cynghorydd Thomas i gael dyfynbris/gwybodaeth am gost adleoli polyn camera o Barc Underhill i Barc Sglefrio'r Mwmbwls. Yn ogystal, costau mewn perthynas â'r camera ei hun a'i chynnal a'i chadw.

CSD2509-12 **Archwiliad blynyddol Parc Sglefrio'r Mwmbwls**

Roedd archwiliad diogelwch blynyddol Parc Sglefrio'r Mwmbwls wedi'i ddosbarthu i aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod.

Amlinellodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Scott, agweddau allweddol yr adroddiad ac mai dim ond un maes yr oedd angen mynd i'r afael ag ef, sef yr angen i atgyweirio/cynnal a chadw ardaloedd glaswelltog.

**PENDERFYNWYD** Derbyn Adroddiad yr archwiliad diogelwch blynyddol o Barc Sglefrio'r Mwmbwls.

**CAM GWEITHREDU** Ashley Haynes i atgyweirio/cynnal a chadw ardaloedd o laswellt sydd wedi treulio fel y manylir yn yr adroddiad uchod.

CSD2509-13 **Gwahoddiad i Barc Sglefrio'r Mwmbwls ar 27 Medi 2025 (10am – 12pm) – Paul Evans, Cydlynydd Diogelwch Cymunedol Cyngor Dinas a Sir Abertawe**

Manylodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Scott, ar wahoddiad agored i ddigwyddiad diogelwch ar 27 Medi 2025. Amlinellodd y Prif Swyddog ymhellach sut y byddai'r digwyddiad yn cael ei gynnal ar y cyd â Chyngor Dinas a Sir Abertawe a Heddlu De Cymru.

CSD2509-14 **Parc Sglefrio'r Mwmbwls – Cynnig rhôl-sglefrio**

Manylodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Scott, ar gais gan breswylydd lleol yn gofyn am greu ardal ar gyfer rhôl-sglefrio ym Mharc Sglefrio'r Mwmbwls.

Cynhaliwyd trafodaeth rhwng cynghorwyr ar opsiynau i ychwanegu at y cyfleusterau presennol gan ystyried ardaloedd sy'n dueddol o gael llifogydd. Roedd y syniadau'n cynnwys cyfleuster BMX uchel a chylch pêl-fasged. Nodwyd hefyd y byddai angen i unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol ystyried dymuniadau trigolion lleol.

**CAM GWEITHREDU** Prif Swyddog i ysgrifennu'n ôl at y cynigydd yn gofyn am wybodaeth ychwanegol am y cynnig.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.26pm

Cyfarfod nesaf 15 Hydref 2025